

Crynodeb

Diolch i chi am gymryd yr amser i weld ein harddangosfa rithwir yn arddangos y cynigion datblygu cyffrous ar gyfer Glannau Caergybi.

Rydym am glywed gennych cyn i gais cynllunio ar gyfer y datblygiad gael ei gyflwyno i Gyngor Sir Ynys Môn. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adborth yw 5pm ddydd Llun 25^{ain} Ionawr 2021 (bellach wedi'i ymestyn tan 5pm ddydd Llun 1^{af} Chwefror 2021).

Cymerwch eiliad i lenwi ein holiadur adborth cyn i chi adael yr arddangosfa rithwir. Byddem yn annog pawb sy'n cymryd rhan i fynegi eu barnau, p'un a yw'r rhain yn gadarnhaol neu'n negyddol.

Bydd yr Ymgeisydd yn ystyried yr holl sylwadau a dderbynnir a gall y broses hon helpu i lunio'r cais a gyflwynir yn y pen draw*.

Bydd yr holl sylwadau ac adborth yn cael eu cynnwys yn ein hadroddiad ymgynghoriad cyn ymgeisio (PAC). Bydd yr adroddiad PAC yn cael ei gyflwyno i Gyngor Sir Ynys Môn fel rhan o'r cais cynllunio.

* Nid yw unrhyw sylwadau a wneir i Conygar yn sylwadau i'r awdurdod cynllunio. Bydd cyfle i gyflwyno sylwadau i'r awdurdod cynllunio unwaith y bydd cais cynllunio wedi'i gyflwyno.

Camau nesaf:

Y camau nesaf allweddol fydd paratoi'r cais cynllunio sy'n ystyried unrhyw sylwadau gennych chi'ch hun i lywio'r broses ddyllunio ac asesu.

Ar ôl i'r cais gael ei gyflwyno, bydd cyfnod o ystyried ac ymgynghori gan Gyngor Sir Ynys Môn, Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru, cyn i unrhyw benderfyniad gael ei wneud.

Gofynnir i nifer o sefydliadau eraill am eu barn, ynghyd â rhanddeiliaid lleol a chymdogion.



Darluniad gwledol o'r Awyr o'r Marina a Glannau Arfaethedig Traeth Newry

Llinell Amser Dangosol:

- Paratoi drafft terfynol o'r cais cynllunio: Ionawr 2021 - Chwefror 2021
- Ymgynghoriad statudol cyn ymgeisio: Chwefror - Mawrth 2021;
- Cyflwyno'r cais: Ebrill 2021;
- Cyfnod penderfynu: Mai - Awst 2021; a
- Disgwylir y penderfyniad: Awst - Medi 2021.

Cadwch mewn cysylltiad:

Os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach neu os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau, gallwch gysylltu â'r fîm trwy e-bostio consultations@axisped.co.uk tra bod yr arddangosfa'n fyw.

Diolch!

Darluniad gwledol o Lannau Arfaethedig Traeth Newry a golwg dros y Marina

